# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# 07.06.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Alan Jones-Evans, Chris Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Llywarch bowen Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Peter Read, Liz Saville Roberts, Dyfrig L. Siencyn, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Wyn Williams, R. Hefin Williams.

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig:** Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd)
Rhian Roberts (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor)

**Hefyd yn Bresennol:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Huw Edwards a Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2012/13.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter Read yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2012/13.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r Pwyllgorau canlynol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir fel rhai cywir:

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Pwyllgor Craffu Gofal | 13.03.12 |
| (b) | Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc | 22.03.12 |

**5. AELODAU CYFETHOLEDIG**

(a) Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol bod aelodaeth y Pwyllgor Craffu hwn, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, yn cynnwys y cynrychiolwyr canlynol sy'n cael pleidleisio:

(i) 1 cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru;
(ii) 1 cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig; a
(iii) 2 cynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr (un bob un i gynrychioli ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd)

(b) Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyfethol cynrychiolwyr o fudiadau eraill i wasanaethu fel aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Craffu hwn. Consensws barn y Pwyllgor ydoedd i wahodd cynrychiolwyr o fudiadau eraill yn ôl y galw ac yn ddibynnol ar y pynciau dan sylw.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.10 am